

# CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo  
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid  
*Clerk and Chief Financial Officer*

**Donna Watts**

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: [CyngorBethesda@ogwen.org](mailto:CyngorBethesda@ogwen.org)

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

## Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan Nos Iau 22 Tachwedd 2018

### PRESENNOL:

#### Ward Ogwen

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Griff Morris

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Einir Williams

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

#### Ward Gerlan

Y Cynghorydd Ann Williams

#### Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Susan Davies

1. **Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan y Cyng. Einir Williams.

**Ymddiheuriadau** gan y Cyng. Paul Rowlinson, Rheinalt Puw, Pearl Evans, Dyfrig Jones a Linda Brown.

Pawb yn dymuno penblwydd hapus i'r Cyng. Godfrey Northam oedd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

### 2. Datgan Diddordeb

Eitem 6, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Griff Morris a Neville Hughes

### 3. Materion Brys

**3.1 Gwasanaeth Sul y Cofio** – trafodwyd y buasai'r aelodau yn hoff o drafod cynnwys y gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd bydd y Clerc yn cysylltu gyda'r Parch. John Matthews.

**3.2 Arriva, bysiau Gerlan** – y Cyng. Linda Brown yn bryderus am y gwasanaeth yn Gerlan. Penderfynwyd ysgrifennu at Gyngor Gwynedd i rhoi cais am ymestyn y llinellau melyn (dim ond dipyn bach) sydd gyferbyn i'r Caban i drïo osgoi'r problemau parcio/bysiau. Penderfynwyd hefyd i holi Arriva os oedd bws llai ar gael i wasanaethu Gerlan.

### 4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Hydref 2018.

### 5. Materion yn codi o'r Cofnodion

**5.1 Cloc Gorffwysfan**- y cloc wedi ei archebu

**5.2 Gordyfiant ar y ffordd rhwng yr Hen Iard Glo a groeslon Gerlan**-y wal heb gael sylw, y Clerc am ddod a'r mater i sylw Gyngor Gwynedd unwaith eto.

**5.3 Clwb Ieuenctid** – adroddwyd bod cyfweiliadau wedi digwydd ar ddechrau'r wythnos ac bod 2 swyddog wedi eu apwyntio ar gyfer y clwb ieuenctid.

**5.4 Dail ar y llwybrau** – gwaith clirio wedi ei wneud.

**5.5 Caeau chwarae** – penderfynwyd peidio cael dyfynbris am rwydi ar gyfer y goliau. Y cam cyntaf fydd holi'r Cyng. Rheinallt Puw os yw Cyngor Gwynedd yn fodlon i'r Cyngor Cymuned fod yn gwneud y gwaith arfaethedig i'r caeau pêl-droed. Wedyn bydd angen prisiau ar gyfer y toriadau ychwanegol a cael marcio'r caeau.

## **6. Adroddiad Partneriaeth Ogwen**

Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad a diolch i'r tîm am waith ardderchog.

## **7. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

**Partneriaeth Ogwen** – cyfarfod i drafod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Bartneriaeth. Y Cyng. Godfrey Northam wedi mynychu gyda'r Cyng. Evan Jones o Gyngor Llanllechid. Pawb yn fodlon gyda holl waith y Bartneriaeth.

## **8. Maes Parcio Gerlan**

Pawb wedi derbyn copi o diweddariad ysgrifenedig. Y Cyngor yn cefnogi'r cynllun ac yn unfrydol am symud ymlaen gyda'r maes parcio.

## **9. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynoded o ohebiaeth Tachwedd 2018'

**9.1** E-bost gan Swyddfa Archwilio Cymru—archwiliad y Cyngor wedi ei amodi. Trafodwyd sut byddai ymdrin â'r gwallau flwyddyn nesaf.

**9.2** E-bost gan Cydlynnydd Ymgyrch Dwristiaeth, Cylch yr Iaith –cais i'r Cyngor i gefnogi dogfen Cylch yr Iaith a dwyn sylw'r cynnwys at aelodau Cyngor Gwynedd yr ardal, ac i Arweinydd ac Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd. Y Cyngor yn fodlon datgan cefnogaeth i'r ymgyrch.

**9.3** E-bost gan Llwybr Llechi Eryri- cais i leoli gwaith celf rhywle ger diwedd y llwybr. Penderfynwyd bod y Cyngor yn cytuno mewn egwyddor, ond angen mwy o fanylion.

**9.4** E-bost gan Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd ynglŷn a cyfyngiadau parcio arfaethedig. Y Cyngor yn hapus gyda rhoi llinellau melyn wrth Hen Aelwyd Bethesda ac yn awyddus cael rhai ar ben yr allt hefyd.

**9.5** E-bost gan Ieuan Wyn – holi am blac gafodd ei gyflwyno i Bwyllgor Bwrlwm Bro Dyffryn Ogwen yn 1981. Penderfynwyd edrych yn ôl ar hen gofnodion ac hefyd pawb i feddwl am ble gall y plac fod.

**9.6** E-bost gan Menter Iaith Dyffryn Ogwen ynglŷn a busnesau ar safle Llys y Gwynt, Llandygai. Y Cyngor am gefnogi'r sylwadau.

Cafwyd trafodaeth hefyd am beiriannau arian yn yr ardal, bod dewis yr iaith Gymraeg wedi ei ddileu oddi ar rhai ohonynt. Penderfynwyd bydd yr aelodau yn cael golwg ar y peiriannau erbyn y cyfarfod nesaf, er mwyn rhoi rhestr at ei gilydd.

**9.7** E-bost gan Cylch Meithrin Cefnfaes-cais am rodd. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gefnogi'r cais.

## **10. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**

### **Penderfyniadau**

**C18/0592/13/CR**

Capel Bethania, Ffordd Bangor, Bethesda

Addasiadau mewnol ac allanol i drosi adeilad yn 2 uned wyliu

### **Ceisiadau**

**C18/0999/13/LL**

11 Rhes Ogwen, Bethesda

**NP3/21/9C**

8 Ciltwllan, Gerlan, Bethesda

### **11. Taliadau**

#### Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Tachwedd)	£271.50
CThEM (Tachwedd)	£67.80
Londis-papurau (Hydref)	£33.35
E Goodall – ffenestri Gorffwysfan	£7.00
Partneriaeth Ogwen-halen	£723.60
C Jackson-llenwi'r biniau melyn	£350.00
C Jackson-llwybrau cyhoeddus	£903.25
G Northam – treuliau teithio	£26.10
As Time Goes By – Cloc Gorffwysfan	£912.00

**Penderfyniad:** Caniatawyd, gydag amodau

Cais ôl-weithredol ar gyfer newid defnydd llawr gwaelod eiddo o siop (A1) i annedd (C3)

**Penderfyniad:** Cefnogi

Tynnu dormer blaen presennol ac estyniad dormer cefn a dymchwel estyniad ochr, codi dormer newydd i'r edrychiad de, codi estyniad unllawr i'r ochr a chodi garej.

**Penderfyniad:** Cefnogi